

Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth

Datganiad

Mae Chwarae Cymru'n credu bod gan bawb yr hawl i gael eu trin ag urddas a pharch. Rydym yn anelu ac yn ymrwymo i ddarparu ein holl wasanaethau ar sail teg ac ecwitiol. Mae Chwarae Cymru wedi ymrwymo i arferion cyflogaeth teg, diduedd a gwrthrychol ac amgylchedd gwaith sy'n rhydd rhag aflonyddu ac erledigaeth.

Cyfrifoldeb

Y Cyfarwyddwr fydd â chyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad effeithlon y polisi hwn, fodd bynnag mae cyfrifoldeb ar bob cyflogai i gynorthwyo Chwarae Cymru i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Mae derbyn a glynu at bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Chwarae Cymru'n ffurfio rhan o gytundeb cyflogaeth pob cyflogai.

Ethos ac egwyddorion

- Mae Chwarae Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i gyfle cyfartal.
- Bydd Chwarae Cymru'n darparu pob gwasanaeth ar sail teg ac ecwitiol ac yn trin pobl gydag urddas a pharch bob amser.
- Ni wahaniaethir yn erbyn unrhyw gyflogai neu ymgeisydd am swydd, unai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar sail oed, anabledd, iaith, cyfrifoldebau gofal domestig, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.
- Mabwysiedir gweithdrefnau recriwtio a dethol sy'n cynnig cyfleoedd teg ac ecwitiol i bawb ac, yn yr un modd, bydd Chwarae Cymru'n dyrchafu a hyfforddi staff mewn modd teg ac ecwitiol.
- Bydd Chwarae Cymru'n gweithredu'r ddeddfwriaeth a'r codau ymddygiad cymwys ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hymgorffori ym mhob polisi, gweithdrefn ac arfer gweithio.
- Bydd y sefydliad yn cymryd camau priodol i fodloni gofynion crefyddau, diwylliannau, y Gymraeg a chyfrifoldebau domestig wrth gynllunio gweithdrefnau a llinellau amser.
- Disgwylir i bob aelod o staff fabwysiadu'r ethos a'r egwyddorion hyn wrth gyflawni eu dyletswyddau a gwneud busnes ar ran Chwarae Cymru a darperir hyfforddiant a chefnogaeth i'w galluogi i gyflawni hyn.
- Bydd Chwarae Cymru'n disgwyl i'r rheini sy'n cyflawni gwaith ar ran y sefydliad i fabwysiadu a gweithredu eu polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain neu fabwysiadu un Chwarae Cymru.

Gweithrediad

Staff ac Ymddiriedolwyr

- Mae'r sefydliad yn anelu i sicrhau na fydd yr un ymgeisydd am swydd yn derbyn triniaeth lai ffafriol ar unrhyw un o'r seiliau anghyfreithlon a restrir yn y datganiad polisi. Adolygir gweithdrefnau recriwtio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael eu trin ar sail eu rhinweddau a'u doniau perthnasol a bod sectorau digon amrywiol o'r gymuned yn cael eu cyrraedd. Adolygir criteria dethol am swydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau y gellir eu cyfiawnhau ar sail anwahaniaethol fel bod yn hanfodol ar gyfer perfformiad effeithlon y swydd. Er mwyn sicrhau bod y polisi hwn yn gweithredu'n effeithlon bydd y sefydliad yn monitro tarddiad hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd ymgeiswyr fel rhan o'r

weithdrefn recriwtio. Byddwn yn cadw cofnodion o'r data yma ar ffurf ddiennw at y diben a nodir yn y polisi hwn yn unig.

- Defnyddir gwybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr am swydd a chyflogai at ddibenion monitro at y dibenion hyn yn unig a delir â'r rhain yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) â Deddf Diogelu Data 1998.
- Caiff anghenion hyfforddi staff eu dynodi trwy oruchwylio ac arfarnu rheolaidd. Bydd pob cyflogai'n derbyn mynediad priodol i hyfforddiant i'w galluogi i sicrhau cynnydd o fewn y sefydliad. Gwneir pob penderfyniad am ddyrchafiad ar sail teilyngdod. Ble fo'n briodol, cymerir camau i ddynodi a dileu rhwystrau diangen neu ddireswm ac i ddarparu cyfleusterau ac amodau gwasanaeth priodol i gyflawni anghenion arbennig grwpiau difreintiedig neu a dangynrychiolir.
- Os yw staff yn anabl, neu'n mynd yn anabl yn ystod cyfnod eu cyflogaeth, fe'u hanogir i ddweud wrth y sefydliad am eu cyflwr er mwyn ein galluogi i ddarparu cefnogaeth a gwneud addasiadau rhesymol i amodau neu ddyletswyddau gwaith. Rhoddir ystyriaeth ofalus i unrhyw addasiadau o'r fath ac fe'u gwneir ble fo'n bosibl a ble maent yn gymesur ag anghenion y swydd.
- Adolygir amodau gwasanaeth staff, buddiannau a chyfleusterau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod ar gael i bob cyflogai ddylai gael mynediad iddynt ac nad oes unrhyw rwystrau anghyfreithlon i gael mynediad iddynt. Mae hyn yn cynnwys polisiau cyflog a'r holl fuddiannau a gynigir. Bydd y sefydliad yn monitro criteria a gweithdrefnau dileu swydd er mwyn sicrhau eu bod yn deg a gwrthrychol ac nad ydynt yn gwahaniaethu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn erbyn cyflogai.
- Gall unrhyw aelod o staff sy'n teimlo efallai iddynt fod yn destun triniaeth sy'n torri'r polisi hwn godi'r mater trwy weithdrefn anghydfod Chwarae Cymru.
- Caiff y polisi hwn ei arddangos yn gyhoeddus ar wefan y sefydliad a chaiff ei ddisbarthu i bob cyflogai a gweithiwr cysylltiedig.

Gwasanaethau

- Bydd Chwarae Cymru'n anelu i sicrhau bod ein gwasanaethau, prosiectau a staff yn hygyrch i bob adran o'r gymuned. Bydd adrannau o'r gymuned a dangynrychiolir yn cael eu hannog yn gadarnhaol i wneud defnydd o gyfleusterau Chwarae Cymru, a byddwn yn annog sefydliadau cysylltiedig a grwpiau defnyddwyr i ddatblygu a hybu eu strategaethau cyfle cyfartal eu hunain.
- Cynhyrchir deunyddiau a chyhoedduswydd Chwarae Cymru mewn ieithoedd eraill ble fo'n briodol a byddwn yn anelu i gynnwys delweddau cadarnhaol o adrannau o'r gymuned a dangynrychiolir o fewn y sefydliad.
- Bydd lleoliadau ar gyfer hyfforddiant, cynadleddau, digwyddiadau ayyb yn hygyrch i bobl anabl a gwneir yn siŵr bod y cyfleusterau a'r offer angenrheidiol ar gael i groesawu pobl sydd ag anableddau ar y synhwyrau.

Adolygu

Dylid adolygu'r strategaeth yn flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol, yn weithredol ac wedi ei diweddarau.

Fersiwn polisi

Adolygwyd y polisi hwn ym mis Tachwedd 2022